

Cwestiynau Cyffredin Myfyrwyr (FAQ): Cyllid Wythnosau Ychwanegol (Cwrs Hir) o 2026/27

Cyhoeddir y Cwestiynau Cyffredin hyn gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Bwriedir iddo helpu myfyrwyr i ddeall sut y bydd cymorth am wythnosau ychwanegol (cwrs hir) yn gweithredu o 2026/27.

1. Beth sydd wedi newid ers blwyddyn academiaidd 2026/27?

O 2026/27 ymlaen, ni all myfyrwyr sy'n derbyn Bwrsariaeth GIG Cymru dderbyn cyllid wythnosau ychwanegol (cwrs hir) drwy fenthyciadau cynhaliath Cyllid Myfyrwyr Cymru mwyach.

Yn lle hynny, darperir cefnogaeth ar gyfer wythnosau ychwanegol o astudio drwy Fwrsariaeth GIG Cymru.

2. Pam mae'r newid hwn wedi'i wneud?

Mae'r newid yn cywiro gwall rheoleiddio fel bod:

- darperir cymorth ar sail nad oes rhaid ei ad-dalu lle bynnag y bo modd; a
- nid yw myfyrwyr yn derbyn cyllid sy'n gorgyffwrdd nac yn ddyblyg o wahanol systemau.

Mae hyn yn cyd-fynd yn gywir â sut mae polisi cyllid myfyrwyr a Bwrsariaeth GIG Cymru yn gweithio gyda'i gilydd.

3. Pam mae myfyrwyr yn dweud eu bod nhw mewn sefyllfa waeth nag yn y blynyddoedd blaenorol?

O flwyddyn academiaidd 2024/25 ymlaen, newidiodd y rheoliadau i wneud Myfyrwyr Bwrsariaeth GIG Cymru cymwys, llawn amser, sy'n byw yng Nghymru, yn gymwys i wneud cais am swm llawn y benthyciad cynhaliath heb brawf modd gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Disodlodd hyn y Benthyciad Cynhaliath Cyfradd Gostyngol a oedd ar gael yn flaenorol ac arweiniodd at gynnydd sylweddol yn y gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr Bwrsariaeth GIG Cymru.

O ganlyniad, roedd y newid hefyd yn golygu bod Myfyrwyr Bwrsariaeth GIG Cymru cymwys, llawn amser, sy'n byw yng Nghymru, yn gallu hawlio cymorth wythnosau ychwanegol (cwrs hir) heb brawf modd drwy Gyllid Myfyrwyr Cymru, pan oedd hyn wedi'i hawlio drwy Fwrsariaeth GIG Cymru yn unig o'r blaen. Yn ymarferol, roedd hyn yn

golygu bod myfyrwyr o bosibl yn derbyn cyllid dwbl. Roedd hwn yn ganlyniad anfwriadol o'r newid polisi.

Mae'r sefyllfa wedi'i chywiro fel bod myfyrwyr yn cael eu cyfeirio i hawlio wythnosau ychwanegol o gymorth drwy Fwrsariaeth GIG Cymru. Er y gallai cymorth wythnosau ychwanegol Bwrsariaeth GIG Cymru fod yn is na thaliadau benthyciad Cyllid Myfyrwyr Cymru ychwanegol a welwyd yn 2024/25 a 2025/26, mae'n destun prawf modd ac nid yw'n ad-daladwy. O flwyddyn academaidd 2026/27 ymlaen, dim ond drwy lwybr Bwrsariaeth GIG Cymru y telir yr holl gymorth wythnosau ychwanegol.

Lwfans Wythnosau Ychwanegol – Bwrsariaeth GIG Cymru

Os yw eich cwrs yn rhedeg am fwy na 30 wythnos, efallai y byddwch yn gymwys i gael Lwfans Wythnosau Ychwanegol, fel y dangosir isod:

Trefniadau byw	Swm fesul wythnos ychwanegol (uchafswm)
Cartref rhieni	Hyd at £56
Mannau eraill	Hyd at £84
Llundain (myfyrwyr meddygol a deintyddol yn unig)	Hyd at £108

Mae'r Lwfans Wythnosau Ychwanegol yn seiliedig ar brawf modd ac rydym yn cydnabod y bydd rhai myfyrwyr yn siomedig y bydd cymorth yn cael ei dalu drwy Fwrsariaeth GIG Cymru o 2026/27 yn unig, yn enwedig lle mae hyn yn arwain at swm is na'r taliadau benthyciad Cyllid Myfyrwyr Cymru ychwanegol a welwyd yn 2024/25 a 2025/26. Mae'r newid hwn yn cywiro canlyniad anfwriadol o newidiadau rheoleiddiol 2024/25 ac nid yw'n effeithio ar gymorth a dalwyd eisoes i fyfyrwyr mewn blynyddoedd academaidd blaenorol.

Ni fydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn trin y cymorth wythnosau ychwanegol blaenorol fel gordaliad ac ni fydd yn rhaid i fyfyrwyr wneud ad-daliadau cynnar.

4. A allaf newid o Fwrsariaeth GIG Cymru i Gyllid Myfyrwyr Cymru yn lle hynny?

Na. Unwaith y bydd eich cwrs wedi dechrau a bod y deg wythnos gyntaf wedi mynd heibio, bydd eich llwybr ariannu wedi'i bennu am hyd eich astudiaethau (oni bai bod angen i chi ailadrodd blwyddyn y bydd eich arweinydd Bwrsariaeth yn ei thrafod gyda chi ar y pryd).

Mae hyn yn golygu na allwch:

- newid o gyllid Bwrsariaeth GIG Cymru i Gyllid Myfyrwyr Cymru yn ddiweddarach yn eich cwrs; neu

- newid llwybrau ariannu mewn blynyddoedd diweddarach ¹.

Mae'r rheol hon wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer ac mae'n berthnasol i bob myfyriwr.

10s byddwch chi'n profi newid eithriadol yn eich amgylchiadau; gallwch chi ofyn am adolygiad unigol. Ystyrir adolygiadau fesul achos ac nid ydynt yn gwarantu newid i'ch cyllid.

5. A yw'r gefnogaeth gyffredinol i fyfyrwyr Bwrsariaeth GIG Cymru yn is?

Na. Yn gyffredinol, mae myfyrwyr Bwrsariaeth GIG Cymru yn parhau i dderbyn amrywiaeth o gefnogaeth, gan gynnwys:

- ffioedd dysgu llawn wedi'u talu ar sail nad oes rhaid eu had-dalu (yn amodol ar ymrwymadau gweithlu)
- mynediad at y gyfradd lawn o gymorth cynhaliaeth gan Gyllid Myfyrwyr Cymru
- bwrsari sy'n seiliedig ar brawf modd ar gyfer costau byw a grant nad yw'n seiliedig ar brawf modd; a
- lwfansau bwrsariaeth ychwanegol ar gyfer myfyrwyr cymwys, megis Lwfans Dibynyddion, Lwfans Gofal Plant, Lwfans Myfyrwyr Anabl ac ati.

Mae'r mater yn ymwneud yn benodol ag wythnosau ychwanegol o gymorth a chywiro canlyniad anfwriadol o newidiadau rheoleiddiol 2024/25. O 2026/27 ymlaen, hawlir wythnosau ychwanegol o gymorth yn gywir drwy Fwrsariaeth GIG Cymru, sy'n seiliedig ar brawf modd ac nad oes angen ei had-dalu, yn hytrach na thrwy fenthyciadau cynhaliaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru.

6. Beth fydd yn digwydd yn y blynyddoedd i ddod?

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Fwrsariaeth GIG Cymru (a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2026) i lywio polisi yn y dyfodol ar gyfer Bwrsariaeth GIG Cymru.

7. Pwy alla i gysylltu ag ef os oes angen cyngor arnaf am fy sefyllfa unigol?

Os oes angen cyngor arnoch ynglŷn â'ch cyllid eich hun, cysylltwch â Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr Bwrsariaeth GIG Cymru:

E-bost: abm.sas@wales.nhs.uk

Rhif Ffôn: 029 21 500 400

Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener, 8.30 i 16.30.

Gallant roi arweiniad yn seiliedig ar eich amgylchiadau personol.

Ebrill 2026